

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Cyfansoddi - Cynradd

Un cyfansoddiad yn unig a dderbyniwyd i'r gystadleuaeth gynradd, ond pleser oedd hi i weld fod yna gyfansoddwr ifanc yn arddangos dawn ddilys eleni:

'*Y Fynwent*' (unawd i'r delyn) a welir yng ngwaith *Ben M-P*, ac mae'r cyfansoddiad yn llwyddiannus mewn creu awyrgylch galarus sydd yn adlewyrchu teitl y gwaith. Mae'r cyfansoddwr eisoes yn dangos dealltwriaeth o ysgrifennu moddol, gyda chyfansoddiad wedi'i wneud lan yn gyfan gwbl o draw'r raddfa A leiaf harmonig. Mae yna hefyd ofyn i'r telynor i greu effeithiau rhythmig, gan daro ar bren yr offeryn (ond efallai bod angen eglurhad mwy clir o'r dechneg yma yn y sgôr).

Mae'r sgôr wedi ei nodi yn gyfan gwbl ar bapur – sgil pwysig sydd yn arddangos gallu'r cyfansoddwr i ddefnyddio'i glust (neu'i chlust) ac i greu paramedrau traw a rhythm cywir (heb unrhyw ddibyniaeth ar dechnoleg cyfrifiadur).

Ac felly *Ben M-P* sy'n fuddugol eleni: dyma waith sy'n dangos potensial y cyfansoddwr i ddatblygu sgiliau trawiadol yn y dyfodol. Dal ati plîs!

Cyfansoddi – Uwchradd

Dau gyfansoddiad a dderbyniwyd i'r gystadleuaeth uwchradd eleni. Cyn cychwyn mae yna gwpl o bwyntiau cyffredinol i wneud i'r ddau gyfansoddwr: Does dim teitl neu dempo wedi'u cynnwys yn y naill gyfansoddiad. Dylai cynnwys teitl i roi rhyw fath o welediad mewn i ysbrydoliaeth y gwaith; dylai cynnwys tempo i ddisgrifio cymeriad y gwaith a sut i'w pherfformio. Mae'r nodweddion yma hefyd yn bwysig i arddangos bod y cyfansoddwyr yn meddwl am eu gwaith fel creadigaethau gwreiddiol, artistig (yn hytrach nag ymarferion ysgol neu wersi cerddoriaeth).

Mae Caradog wedi cyflwyno cyfansoddiad i unawd ffidil (â chyfeiliant telyn). Mae yna sawl agwedd diddorol yn yr ysgrifennu i'r delyn sy'n creu byd sain atmosfferig, werinol, gyda phatrymau arpeggio effeithiol, ond efallai bod y marc metronom a farciwyd yn y sgôr ychydig yn rhy gloi pryd mae'r patrymau hanner cwafer yn dechrau? Hefyd, mae yna sawl estyniad yn y llaw dde sy'n rhy hir i chware gydag un llaw, yma dylai'r llaw chwith croesi i chwarae'r wythfed uchaf (ond mae angen dangos hyn mewn ffordd fwy clir, ac mewn llais gwahanol yn y sgôr).

Mae'r ysgrifennu i'r ffidil yn llai effeithiol: mae'r patrymau traw yn yr alaw braidd yn ailadroddus ac mae hyd y rhythmau yn rhy fyr (sydd yn cyfyngu sain yr alaw yn y ffidil). Dylai'r cyfansoddwr canolbwyntio ar ddatblygu'i allu technegol i ysgrifennu alawon effeithiol, gyda siâp a strwythur cerddorol, ynghyd â thôn parhaus a fwy o amrywiaeth felodig.

Serch hynny, mae yna sawl agwedd bositif i waith y cyfansoddwr; hefyd, rwy'n hoffai'r ffaith bod yn y cyfansoddwr wedi gwneud ymdrech ddilys i greu arddull gwreiddiol, unigryw.

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Unawd i'r piano a welir yng ngwaith Berwyn. Mae'r cyfansoddiad mewn arddull waltz (h.y. yn debyg i waith Chopin), gydag alaw bianyddol yn y llaw dde a bas/harmonïau yn y llaw chwith. Mae'r ysgrifennu i'r piano yn effeithiol ac yn idiomatig, gyda gofynion technegol i'r pianydd yn y ddwy law. Un adran lle mae'n rhaid i'r cyfansoddwr fod yn ofalus yw lle mae'r llaw dde a chwith yn croesi mewn ffordd annaturiol (ym mm. 76–80).

O safbwynt rhythm, fe welir sawl newidiad metrig diddorol (h.y. o 3/4 i 6/8 i 3/8 cyn dychwelyd i 3/4), gyda newid cyflymder addas yn y canol (ond eto, byddai marciau tempo i ddisgrifio'r newid yn y cymeriad cerddorol wedi bod yn ddefnyddiol).

O safbwynt harmoni, mae'r gwaith wedi'i ysgrifennu yng nghywair A fflat fwyaf, ond mae'r cyfansoddwr yn arddangos y gallu technegol i drawsgyweirio mewn i amryw o gyweiriau mwyaf a lleiaf drwy hyd y cyfansoddiad, cyn adeiladu at uchafbwynt cromatig annisgwyl (gyda thripledi i greu tensiwn) ar ddiwedd y gwaith.

Mae yna gryfderau a rhinweddau i'r ddau gyfansoddiad a chyflwynwyd eleni: mae Caradog wedi ceisio i greu arddull gwreiddiol, unigryw (er bod angen datblygu'i allu technegol i ysgrifennu alawon effeithiol a cherddorol); mae gwaith Berwyn yn fwy confensiynol o ran arddull, ond yn dangos cryfderau clir o ran techneg gyfansoddiadol a'r gallu i greu strwythur artistig effeithiol. Ac felly Berwyn sy'n dod i'r brig eleni.